

**COFNODION CYFARFOD Y GRŴP LLYWIO BUDDSODDI RHANBARTHOL YNG
NGHYMRU**

Dyddiad: Dydd Mawrth 16 Rhagfyr 2020

Amser: 11:00 –12:00

Atodiad A: Mynychwyr

1. Croeso (11:00 – 11:05)

- Agorodd y Cadeirydd y cyfarfod a chroesawu pawb, gan ddiolch iddynt am eu presenoldeb.
- Nododd y Cadeirydd mai diben y cyfarfod oedd rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am oblygiadau Adolygiad o Wariant Llywodraeth y DU (25 Tachwedd) a'r datblygiadau sydd wedi digwydd ers hynny, gan gynnwys cyfarfod o'r Gweithgor Gweinidogol ar 3 Rhagfyr.

2. Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol (11:05)

- Nododd y Cadeirydd gofnodion drafft y cyfarfod a gynhaliwyd ar 4 Tachwedd. Ni chafwyd unrhyw sylwadau - derbyniwyd y cofnodion a byddant yn cael eu cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru.

**3. Adolygiad Gwariant y DU a'r wybodaeth ddiweddaraf gan y Gweithgor
Gweinidogol (11:05 – 11:30)**

- Dywedodd y Cadeirydd fod Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi £220m ar gyfer rhaglen beilot ledled y Gronfa Ffyniant Gyffredin/Shared Prosperity Fund (SPF) ledled y DU yn ystod blwyddyn ariannol 2021-22. Ychwanegodd y Cadeirydd fod Llywodraeth y DU yn bwriadu 'cynyddu' yr SPF i ffigur blynyddol o £1.5bn yn y DU o 2022-23. Ar hyn o bryd nid oes gwybodaeth am rôl y Llywodraethau Datganoledig na sut y gellir defnyddio cyllid y rhaglen beilot na chyllid llawn yr SPF.
- Dywedodd Peter Ryland (PR) fod disgwyl y prospectws ar gyfer y flwyddyn beilot ym mis Ionawr. Disgwylid manylion am y gronfa tymor hwy yn yr haf ac ni fyddent o reidrwydd yn dilyn yr un fformat o ystyried y cyllid a'r amserlen gyfyngedig i gynnal y peilot.
- Ychwanegodd PR fod Gweinidogion Cymru yn gefnogol iawn i'r Fframwaith ar gyfer Buddsoddi Rhanbarthol yng Nghymru yr oedd Llywodraeth Cymru wedi'i gynhyrchu gyda rhanddeiliaid a phwysleisiodd mai dyna yw ffocws Llywodraeth Cymru o hyd ar gyfer cefnogi datblygu economaidd rhanbarthol yn y dyfodol. Fodd bynnag, o ystyried yr arian cyfyngedig sydd ar gael ar gyfer cynllun peilot yr SPF yn 2021-22 a'n bod yn dal i aros am ganlyniad y Bil Marchnad Fewnol ac

eglurder gan Lywodraeth y DU ynghylch cynlluniau sy'n ymwneud â chyflawni'r SPF, byddai ein gwaith i ddatblygu pethau ymhellach yn cael ei atal am y tro.

- Dywedodd Rachel Garside-Jones (RGJ) fod y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol (MHCLG) sy'n arwain ar yr SPF wedi nodi y bydd gan Adran Gwaith a Phensiynau'r DU rôl allweddol yn y gronfa y tu hwnt i'r flwyddyn beilot. Pwysleisiodd RGJ bwysigrwydd sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn cymryd rhan yn y gronfa dymor hwy drwy ymgysylltu'n barhaus â rhanddeiliaid.
- Ychwanegodd y Cadeirydd fod Gweinidogion Cymru yn ddiolchgar am y gwaith cydweithredol a oedd wedi'i wneud ar ddatblygu'r Fframwaith i Gymru ac yn credu credu mai dyma'r egwyddorion, y strwythurau a'r mecanwaith cywir ar gyfer datblygu economaidd rhanbarthol hirdymor yng Nghymru.

4. Trafodaeth agored (11:30 – 11:55)

- Gwnaed y pwyntiau canlynol:
 - Pryder am lefel y cyllid y mae Cymru'n debygol o'i gael drwy'r flwyddyn beilot a'r gronfa dymor hwy, a'r effaith y byddai hyn yn ei chael ar gynaliadwyedd cynlluniau a gefnogir ar hyn o bryd gan gronfeydd yr UE.
 - A oes arian y tu allan i'r SPF y gellid ei ddefnyddio drwy'r Fframwaith ar gyfer Buddsoddi Rhanbarthol yng Nghymru.
 - Trafodaeth ar y dull cyfunol o ymgysylltu â Llywodraeth y DU ynghylch cronfeydd y flwyddyn beilot a datblygu'r SPF yn y tymor hwy. Consensws ynghylch cydweithio ac archwilio pob llwybr i geisio cyfrannu at gynlluniau Llywodraeth y DU, gan hefyd sicrhau bod pwysigrwydd datganoli yng Nghymru yn cael ei gadw'n flaenllaw yn y trafodaethau.
 - Hanes cronfeydd y DU o roi ardaloedd gwledig ac ardaloedd llai poblog o dan anfantais, ynghyd â materion atebolrwydd, gyda Chronfa Trefi Llywodraeth y DU yn Lloegr yn cael ei nodi fel enghraifft. Awgrymu adolygiad o'r dull gweithredu yn seiliedig ar y senarios ariannol gwaethaf.
 - Negeseuon Llywodraeth y DU ynghylch ariannu awdurdodau lleol yn uniongyrchol drwy'r SPF er gwaethaf y dull rhanbarthol o ddatblygu ac adfer economaidd sy'n cael ei ddatblygu gan lywodraeth leol yng Nghymru.
 - Rhwystredigaeth ynghylch diffyg parch Llywodraeth y DU at y gwaith sydd wedi cael ei wneud yng Nghymru ar fuddsoddi rhanbarthol a datganoli, a dull tameidiog Llywodraeth y DU o weithio.
 - Mae parhad cyllid ar gyfer prosiectau/myriadau a gefnogir ar hyn o bryd gan gronfeydd yr UE yn allweddol i helpu i fynd i'r afael â'r cynnydd mewn diweithdra a achosir gan y pandemig Covid a chan Brexit.

- Gwnaed y pwyntiau canlynol mewn ymateb i sylwadau a chwestiynau gan Aelodau:
 - Ailadrodd cefnogaeth Gweinidogion i'r Fframwaith a ddatblygwyd gyda rhanddeiliaid ledled Cymru fel dull hirdymor o ymdrin â datblygu economaidd rhanbarthol yng Nghymru.
 - Rôl y Fframwaith mewn negodiadau gyda Llywodraeth y DU fel safbwynt gyhoeddus ar y cyd ar yr hyn yr ydym am ei gael yng Nghymru i gymryd lle rhaglenni ariannu'r UE. Mae sefyllfa economaidd a blaenoriaethau Cymru yn wahanol i rai Lloegr.
 - Gall ymgysylltu â Llywodraeth y DU fod yn wahanol ar gyfer y gronfa beilot o'i chymharu â'r rhaglen SPF lawn.
 - Sgript graidd ffeithiol ar safbwynt Llywodraeth Cymru a'r SPF i'w datblygu i gefnogi Aelodau yn eu trafodaethau gyda'r rhanddeiliaid y maent yn eu cynrychioli a Llywodraeth y DU.

5. Unrhyw fater arall a sylwadau i gloi (11:55 – 12)

- Dywedodd y Cadeirydd y byddai'r cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ym mis Chwefror ar ôl i Lywodraeth y DU gyhoeddi'r prospectws ar gyfer y flwyddyn beilot.
- Gofynnodd y Cadeirydd am unrhyw sylwadau pellach cyn diolch i'r Aelodau am eu cyfraniad a chau'r cyfarfod.

RHESTR O'R MYNYCHWYR

Cadeirydd

Huw Irranca-Davies AS

Aelodau

Sefydliad	Enw
CBI Cymru	Nick Speed, Cyfarwyddwr Materion Cyhoeddus, BT
Prifysgolion Cymru	Amanda Wilkinson, Cyfarwyddwr
Prifysgol Caerdydd	Yr Athro Calvin Jones, Dirprwy Ddeon Gwerth Cyhoeddus a Chysylltiadau Allanol
Coleg Gŵyr Abertawe	Cath Jenkins, Rheolwr Partneriaethau a Rhaglenni Cyflogadwyedd
Cyfoeth Naturiol Cymru	Alan Hunt, Uwch Gyngorydd Arbenigol
Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru	Matthew Brown, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Buddsoddiadau
Colegau Cymru	Lisa Thomas, Pennaeth y Coleg, Merthyr
TUC Cymru	Nisreen Mansein, Swyddog Polisi
Partneriaeth De-ddwyrain Cymru	Nicola Somerville, Pennaeth Datblygu Busnes a Thwf Cynhwysol, Bargaen Dinas Prifddinas-Ranbarth Caerdydd
Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru	Y Cyngorydd Rosemarie Harris, Arweinydd, Cyngor Powys
Canolfan Cydweithredol Cymru	Penodi Prif Weithredwr
Rhwydwaith Gwledig Cymru	Eirlys Lloyd, Rheolwr Partneriaethau Cymunedol/Canolfan Bwyd Cymru, Cyngor Ceredigion
Grahame Guilford (Annibynnol)	Grahame Guilford, Perchennog, Grahame Guilford and Company Ltd
Yr Athro Kevin Morgan (Annibynnol)	Yr Athro Kevin Morgan, Llywodraethu a Datblygu, Prifysgol Caerdydd
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru	Lowri Gwilym, Rheolwr – Ewrop ac Adfywio, Adfywio a'r Amgylchedd
Siambrau Masnach De a Chanolbarth Cymru	Paul Slevin, Llywydd

Mynychwyr Llywodraeth Cymru

Enw	Rôl ac adran
Peter Ryland	Prif Weithredwr, WEFO
Rachel Garside Jones	Dirprwy Gyfarwyddwr – Buddsoddi Rhanbarthol, WEFO
Rhodri Griffiths	Prif Swyddog Rhanbarthol, y Canolbarth a'r De-orllewin – Yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol
David Rosser	Prif Swyddog Rhanbarthol, y De-ddwyrain – Yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol
Gwenllian Roberts	Prif Swyddog Rhanbarthol, y Gogledd – Yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol
Alison Sandford	Pennaeth Gwaith Partneriaeth, WEFO
Anton Orzel	Pennaeth Polisi Buddsoddi Rhanbarthol - WEFO
Paula Young	Rheolwr Buddsoddi Rhanbarthol, WEFO
Mike Richards	Uwch Reolwr Polisi, WEFO
Sheilah Seymour	Pennaeth Ymchwil a Dadansoddi, WEFO
Geraint Green	Pennaeth Rheoli Rhaglenni (ESF ac ETC), WEFO
Helen Minnice-Smith	Pennaeth Polisi Cyflogadwyedd, yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol
Ceri Edwards	Uwch Reolwr Polisi, WEFO
Tom Brown	Uwch Reolwr Polisi, WEFO
Michelle Holland	Tîm Buddsoddi Rhanbarthol, WEFO